# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, dydd Mawrth, 17 Mawrth 2026**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen, W. Victor Owen, Sharon Parry ac Evan Wyn Robertson.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

**1. Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr. Siân Enfys Jones a Gareth Thomas.

**2. Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:
Cyng. Gwilym O. Jones eitem 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog a 6.3 Rhodd i'r Rhwyd.
Cyng. Gordon Owen yn eitem 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog,
Cyng. Sharon Parry yn eitem 6.3 – rhoddion i Hosbis Dewi Sant a Môn FM
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 17 Chwefror 2026 fel rhai cywir (cyn. Cyng. G.O. Jones, eilio. Cyng. W.V. Owen).

**4. Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Dim byd i'w adrodd.

4.2 Neuadd y Pentref:-. British Gas wedi gosod mesurydd nwy ar Chwefror 24ain ac roedd Môn Fire wedi gwneud yr archwiliad 6 misol o'r diffoddwyr tân – newidwyd dau ddiffoddwr dŵr ac 1 diffoddwr Co2. Cytunwyd i ymgymryd â hyfforddiant tân cyn gynted â phosibl.

4.3 Unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion :
Roedd CSYM wedi gosod rhwystrau haearn o flaen dwy fynedfa i'r cae chwarae o Stad Treifan ac roedd y rhwystr metel wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn wedi'i sythu.

**5. Cynllunio**

5.1 Penderfyniad FPL/2025/61 Felin Wen, Llanfair yn Neubwll
Cais llawn ar gyfer codi bloc stablau – Gwrthodwyd.

5.2 FPL /2026/28 yn Yr Efail, Caeau Bychain, Caergeiliog
Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw a chwblhau maes parcio, iard storio peiriannau ac offer ynghyd â chreu mynediad newydd, a gwaith draenio a thirlunio cysylltiedig– dim gwrthwynebiad.

**6. Materion Ariannol**
Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.2. 2026 i 28.2.2026 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Penodiad Archwilydd Mewnol - cytunwyd i benodi Mr John Alun Foulkes, telerau penodi yn unol â llythyr drafft a baratowyd gan y clerc.

6.2 Lwfans Aelodau – Nodyn pellach i atgoffa Aelodau ynglŷn â thalu'r lwfansau statudol.

6.3 Rhoddion – Cytunwyd i roi £100 yr un i Hosbis Dewi Sant, Môn FM ac Ambiwlans Awyr Cymru, £250 i'r Rhwyd a £500 i Eisteddfod yr Urdd.

6.4 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Chwefror.) | £364.39 | Môn Fire Ltd | £199.20 |
| Scottish Power | £86.21 | J.A. Foulkes | £150 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Y Pwyllgor Safonau ar 22 Ionawr 2026 (adborth)

7.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol Adolygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol Mon 2026

7.3 Gofyn i drigolion helpu lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn

7.4 Cynghrair Bro Llynnoedd - 24 Mawrth 2026

7.5 Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf

7.6 Cau Llwybr Troed - 21 Llanfair yn Neubwll

**8. Hyfforddiant –** atgoffwyd aelodau am y lleoedd am ddim oedd ar gael gan Un Llais Cymru.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Celfyn Furlog

Yn ttynnu sylw at gyflwr y llochesi fysiau, dywedodd Cyng, Victor Owen ei fod wedi eu harchwilio i gyd, roedd rhai o'r paneli perspex wedi melynu ond nad oedd angen atgyweiriadau. Roedd graffiti ar rai, ond dim byd sarhaus ond roedd angen glanhau pob un. Byddai'r clerc yn trefnu hyn.

9.2 Cyng. Gwilym Jones;

Bu trigolion Bryngwran a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig i osod ceblau tanddaearol o Fferm Solar Bryngwran ar draws tir preifat rhwng yr A55 a ffordd Caer Elen i Engedi mewn cysylltiad ag ef. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r tir y tu allan i ffin Llanfair yn Neubwll, fodd bynnag, cytunwyd bod y cynnig yn opsiwn a ffafriol i drigolion Llanfair yn Neubwll gan y byddai'n llawer llai trafferthus na chael ceblau wedi'u gosod o dan y ffordd.

9.3 Cyng. Sharon Parry

Roedd trigolion Llanfihangel yn Nhowyn yn dal i fynegi pryderon am nifer y cerbydau mawr (busnes) oedd wedi'u parcio ar y ffordd yn ardal Minffordd Road a Dol Eithin.

**10. Cyfarfod Nesaf - 21 Ebrill 2026**

: